
# LLETY

## Canllaw i Ymgeiswyr

# Caerfyrddin




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2020
WINNER ACCOMMODATION

**Llety Arobryn**

1af yn y DU
- Gwobrau Whatuni
Student Choice 2020




> “Hoffwn ddweud diolch am ddarparu llety rhagorol i mi fel myfyriwr a gwasanaeth gwych gennych chi'ch hun a'r holl staff.”
>
> **Elliot, BA Addysg Antur Awyr Agored**

## CYSYLLTWCH Â NI...

**Y Swyddfa Llety:**
Mae gennym wybodaeth am opsiynau llety i fyfyrwyr ar ein gwefan ac am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â’r Swyddfa Llety:

**E-bost:**
**accommodation@uwtsd.ac.uk**

**Ffôn:**
**07984 721 761** *neu*
**07984 696 202**




## Nod y llyfryn hwn yw rhoi’r wybodaeth ganlynol i chi:

✓ Crynodeb o’r llety sydd ar gael.

✓ Manylion ynglŷn â sut mae’r broses gwneud cais yn gweithio.


## Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael trwy ein gwefan ar:

**www.uwtsd.ac.uk/cy/llety/caerfyrddin**

Darllenwch y wybodaeth, ac os oes gennych ragor o ymholiadau, cysylltwch â’r Swyddfa Llety.

Ein nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi symud i mewn i’ch llety ac ymgyfarwyddo â’ch amgylchedd newydd.

YOUR RIGHT TO A QUALITY HOME
THE STUDENT ACCOMMODATION CODE



**Bydd byw mewn Neuadd yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd a mwynhau ymdeimlad o gymuned!**

Ein nod yn y Drindod Dewi Sant yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi symud i mewn i'ch llety ac ymgyfarwyddo â'ch amgylchedd newydd.

## Y MANTEISION

Beth sydd wedi'i gynnwys:

- ✓ **Rydyn ni wedi cwmpasu popeth** - Mae eich biliau I GYD wedi'u cynnwys.
- ✓ **Rydyn ni'n eich cadw mewn cysylltiad** - gyda wi-fi AM DDIM.
- ✓ **Rydyn ni yma i chi 24/7** - staff diogelwch i'ch cadw'n saff a diogel. Patrolau diogelwch 24 awr ac ymateb i argyfwng.
- ✓ **Rydyn ni'n hyblyg** - gan gynnig cytundebau mwy hyblyg o gymharu â darparwyr Llety Preifat.
- ✓ **Llety arobryn** - mae gennym y Llety gorau yn y Deyrnas Unedig yn ôl pleidlais myfyrwyr.

## RYDYN NI'N GOFALU AMDANOCH

Mae popeth er eich mwyn chi:

- ✓ **Rydyn ni'n derbyn eich post a'ch parseli** - fel nad oes raid i chi aros i mewn!
- ✓ **Rydyn ni'n ymdrin â'r holl faterion cynnal a chadw** - y cyfan mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni beth yw'r broblem.
- ✓ **Rydyn ni'n archwilio'n hadeiladau'n rheolaidd** - gan wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn gysurus.
- ✓ **Mae gennym ni wasanaeth cyfeirio rhagorol** - ar gyfer unrhyw anghenion cymorth sydd gennych.
- ✓ **Rydyn ni'n gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Myfyrwyr** - i gael adborth rheolaidd am eich profiad mewn neuadd ac rydym yn dysgu o hynny bob tro.

Dros gyfnod pandemig Covid-19, roeddem yn parhau i gefnogi myfyrwyr lle bo modd, o gynnal eu gwasanaeth post a pharseli i faterion cynnal a chadw – roeddem ni yno!

Fe wnaethom ni gefnogi'r holl fyfyrwyr oedd yn hunanynysu mewn Neuaddau, drwy gynnal sgyrsiau wythnosol, trefnu parseli bwyd, a gwneud yn siŵr fod ganddynt bopeth oedd ei angen yn ystod eu cyfnod yn hunanynysu.

Rhoddwyd ad-daliad rhent i'r myfyrwyr hynny oedd yn dal i fod gartref yn ystod y cyfnodau clo. Fe wnaethom ni eu helpu i gael yr eitemau oedd eu hangen arnynt o'u hystafelloedd. Fe wnaethom ni eu cefnogi pan oedd angen iddynt ddychwelyd i'w Neuadd Breswyl.

# LLETY

**Mae holl lety'r Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin wedi'i leoli ar y campws ei hun, ac rydym yn darparu ar gyfer myfyrwyr cyntaf, ail a thrydydd blwyddyn yn ogystal a myfyrwyr ôl-raddedig.**

Rydym yn Gwarantu Llety'r Brifysgol i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf sy'n gwneud cais ac yn dal Prifysgol y Drindod Dewi Sant fel dewis cadarn. Mae preswylfeydd ein Prifysgol yn cynnig ymdeimlad o gymuned i chi sy'n creu'r cartref perffaith hwnnw oddi cartref.



## Llety Noakes

### Ystafelloedd Hunanarlwyo - En-suite

**Beth sydd wedi'i gynnwys yn neuaddau preswyl Archesgob Noakes:**

- ✓ Adeilad tri llawr gyda thri fflat ar bob llawr.
- ✓ 8 ystafell sengl ymhob fflat.
- ✓ Mae gan bob fflat gegin ac ystafell fyw.
- ✓ Wedi'i ddarparu ymhob cegin – oergell, rhewgell, tostiwr, tegell, meicrodon a ffwrn.
- ✓ Mae pob ystafell yn en-suite gyda gwely, matres, cwpwrdd dillad, bwrdd wrth ochr y gwely, desg, cadair a chwpwrdd llyfrau.

**NEWYDD**
**Cynnig am Gontract Llety Hyblyg**

*Rydym yn dod yn fwy hyblyg i gyd-fynd â'ch astudiaethau. Os hoffech fanteisio ar gytundeb hyblyg neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, byddem yn eich cynghori i gysylltu â'n Swyddfa Llety cyfeillgar.*



| Disgrifiad | Cyfleustodau | Ffioedd | Hyd y Contract |
|---|---|---|---|
| Ystafell Sengl En-suite | Cynwysedig | £3,515 y flwyddyn | 37 Wythnos |



# Y Broses Gwneud Cais

## Cwestiynau Cyffredin

### Pryd ddylwn i wneud cais am lety yn Neuaddau'r Brifysgol yng Nghaerfyrddin?

Gallwch wneud cais am Lety o fis Ionawr ymlaen. Mae'r ddolen gwneud cais ar-lein ar gael ar y wefan llety: **www.uwtsd.ac.uk/cy/llety**

### Sut mae'r broses gwneud cais yn gweithio?

Bydd angen eich Rhif Myfyriwr i gofrestru a gwneud cais. Os oes gennych unrhyw ofynion neu geisiadau arbennig, yna ychwanegwch y rhain at y ffurflen yn yr adran "nodiadau".

Os cewch unrhyw broblemau, cysylltwch â'r tîm llety a fydd yn gallu eich cynorthwyo: **accommodation@uwtsd.ac.uk**.

Os cynigiwyd lle amodol i chi ar eich dewis raglen, cadarnheir eich lle ar y rhaglen cyn gynted ag y bydd Derbyniadau'r Gofrestrfa wedi cael cadarnhad eich bod wedi bodloni telerau'ch cynnig. Wedyn bydd statws eich cynnig ar gyfer y rhaglen yn troi'n un Pendant Diamod. Os penderfynwch y pryd hwn nad oes arnoch angen llety bellach, mewngofnodwch ar y porth Archebu Llety a gwrthod ('Decline') y llety. Bydd hyn wedyn yn canslo eich archeb.

### Pryd fyddaf i'n gwybod manylion yr ystafell a ddyrannwyd i mi?

Gall ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig lle pendant diamod ar eu rhaglen ddisgwyl e-bost gan y Swyddfa Llety ym mis Medi sy'n cadarnhau manylion yr ystafell a ddyrannwyd iddynt.

### Nid y Brifysgol yw fy newis cyntaf, erbyn pryd mae angen i fi wneud cais am lety?

Bydd angen i chi wneud cais am lety unwaith y caiff ei gadarnhau mai ni yw'r Brifysgol y byddwch yn dod iddi.

### Rydw i wedi penderfynu mynd i astudio yn rhywle arall...

Bydd angen i chi fewngofnodi i'r Porth Archebu Llety i ganslo eich ystafell.

### Gaf i ddod â char?

Mae'r parcio'n gyfyngedig iawn ar y safle. Rydym yn cynghori myfyrwyr preswyl i beidio â dod â cheir. Fodd bynnag, os hoffech ddefnyddio'r maes parcio bydd angen i chi wneud cais am drwydded.

### Gaf i aros ar y campws yn ystod y gwyliau?

Mae eich cytundeb trwydded yn caniatáu defnyddio eich ystafell am 37 o wythnosau, sy'n cynnwys gwyliau'r Nadolig a'r Pasg. Os oes angen i chi ymestyn eich contract cysylltwch â'r Swyddfa Llety i drafod.

**Ymgeiswyr Llwyddiannus**
Caiff ymgeiswyr eu cyfeirio at dudalen Facebook a fydd yn eu galluogi i ddod i adnabod eu cyd-fyfyrwyr. Bydd y trefniadau symud i mewn yn cael eu hanfon atoch drwy e-bost ddechrau mis Medi.

# Map Lleoliad

CAMPWS CAERFYRDDIN

Mae campws **YDDS Caerfyrddin** wedi'i leoli ychydig y tu allan i ganol tref Caerfyrddin.

**Campws YDDS** i **ganol y dref:**
Oddeutu 15 munud ar droed.

Mae campws **YDDS Caerfyrddin** wedi'i leoli rhwng campysau YDDS Abertawe ac YDDS Llambed.

Oddeutu 45 munud mewn car.

1 Prif Fynedfa
2 Theatr yr Halliwell
3 Bwyty Myrddin
4 **LLETY NOAKES**
5 Desg Gymorth Llety
6 Canolfan Chwaraeon
7 **Derbynfa**
Y Gofrestrfa
Cyllid
8 Y Llwyfan
9 **Hen Goleg**
Swyddfa Coleg
Cymraeg Cenedlaethol
Desg Gwasanaeth TG
10 Undeb y Myfyrwyr
11 Pwll Nofio
12 Llety Tŵr
13 Llety Myrddin
14 Llyfrgell
15 Stiwdio
16 Gwasanaethau Myfyrwyr
17 Llety Non
18 Capel
19 **Adeilad Dysgu ac Addysgu**
Ystafelloedd Darlithio TL
20 **Parry**
Ystafelloedd Darlithio P
21 **Dafydd Rowlands**
Ystafelloedd Darlithio DR
22 **Rob Hunter**
Ystafelloedd Darlithio RH
23 **Norah Issac**
Ystafelloedd Darlithio N
24 **Carwyn James**
Ystafelloedd Darlithio CJ
25 **Emyr Wyn Evans**
Ystafelloedd Darlithio EW
26 Y Gamfa Wen
27 S4C Yr Egin



# Symud i Gaerfyrddin?

Dyma rai pethau gwych am yr ardal leol...



## Barod am antur?

**Bydd byw yng Nghaerfyrddin yn rhoi'r lleoliad perffaith i chi deithio o gwmpas i fannau prydferth lleol, cestyll, bryniau cefn gwlad ac arfordir syfrdanol de Cymru.**

Castell Llansteffan

## Crwydro Sir Gaerfyrddin

1 **Cestyll**
Mae nifer o gestyll yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau y gallwch chi gymryd cipolwg arnynt. Castell Caerfyrddin yw'r agosaf ac mae yng nghanol y dref. Rhaid bod Castell Caerfyrddin, ar ei fryncyn creigiog yn edrych i lawr ar Afon Tywi, wedi tra-arglwyddiaethu ar y dref ganoloesol, ac yn yr un modd, rhaid bod y gaer Rufeinig, ychydig i'r dwyrain, wedi tra-arglwyddiaethau ar y dref Rufeinig fil o flynyddoedd cyn hynny. Mae Castell Talacharn a Chastell Cydweli i'w cael hefyd ond yn daith fer i ffwrdd yn y car.


2 Mae **Rheilffordd Gwili** yn un o reilffyrdd treftadaeth mwyaf hyfryd y D.G. Mae'r lein wedi'i gosod yng nghanol cefn gwlad prydferth gyda bywyd gwyllt toreithog ac mae'n dilyn Afon Gwili ar daith bwyllog wrth iddi godi drwy dir amaethyddol a bryniau coediog. Tu hwnt i'r locomotifau, yr hanes a'r golygfeydd, apêl y rheilffordd yw natur gyfeillgar a brwdfrydedd y gwirfoddolwyr sy'n cynnal a chadw'r rheilffordd ac yn gweithredu'r gwasanaethau. Syniad gwych fyddai gorffen diwrnod o astudio drwy gymryd taith drwy'r golygfeydd hardd o Gaerfyrddin ar Reilffordd Gwili!

3 Mae'n rhaid i chi ymweld â **Marchnad Caerfyrddin**, a sefydlwyd tua 800 mlynedd yn ôl. Er ei bod yn dyddio'n ôl i oes y Rhufeiniaid, mae wedi cael ei diweddaru'n gelfydd i fod yn Fecca i'r rheini sy'n caru bwyd, gan gynnig cynnyrch lleol o'r radd flaenaf yng Nghymru.  Mae gan y Farchnad amrywiaeth o stondinau sy'n gwerthu pob math o bethau, o gelf a chrefft, gemwaith hen a modern, i gigoedd, ffrwythau a llysiau, cawsiau a chacennau, oll wedi'u cynhyrchu'n lleol. Ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn, mae'r farchnad awyr agored boblogaidd yn denu torfeydd gyda'i chymysgedd diddorol o nwyddau ac ar ddydd Gwener 1af y mis mae'r Farchnad Ffermwyr yn ymweld â'r dref.






**CAERFYRDDIN YW TREF HYNAF CYMRU AC MAE'N LLAWN HANES, Y LLE PERFFAITH I YMGYFARWYDDO Â'R DIWYLLIANT CYMREIG.**




## Rhaid i chi...

**Ymweld â'r Boathouse yn Nhalacharn – cartref Dylan Thomas.**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

@StudyUWTSD @UWTSD

UWTSD

drindoddewisant